| | | |
|---|---|---|
| **Title:** | Polisi Llên-Ladrad<br>Plagiarism Policy | |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students | |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | Plagiarism Policy EIA Stage 1 |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | Welsh Language Impact<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | |
|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | *Is-bennaeth – Ansawdd*<br>*Vice Principal - Quality* | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Tîm Ansawdd / Quality Team*<br>*Pennaeth Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac Arloesi Digidol / Head of AI and Digital Innovation*<br>*Tîm Arholiadau / Exams Team*<br>*Partneriaeth Cymdeithasol / Social Partnership* | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | *Amherthnasol*<br>*N/A* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | *4/6/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** 04/05/28 | Corff Llywodraethu / Governing Body: | - |

**1. Cwmpas**

1.1. Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i bob math o ddarpariaeth addysgu a dysgu yn y coleg gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, cyrsiau cyswllt ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith.

**2. Polisïau eraill sydd yn gysylltiedig â'r polisi hwn:**

2.1. Polisi a Gweithdrefnau Arholiadau
2.2. Polisi Asesiadau heb Arholiad
2.3. Polisi Apeliadau Myfyrwyr
2.4 Polisi Ymddygiad Cadarnhaol

**3. Polisi Llên-ladrad**

3.1. Mae'r polisi llên-ladrad yn bodoli ar y cyd â rheoliadau wedi'u gosod gan gyrff dyfarnu a rheoliadau SAU. Mae'r polisi hwn hefyd yn atgyfnerthu'r rheolau a'r rheoliadau a amlinellir ym Mholisïau a Gweithdrefnau Camymddwyn Amheus y Cyngor Cydweithredol ar gyfer Cymwysterau (JCQ).

3.2. Gellir diffinio llên-ladrad fel cyflwyno gwaith rhywun arall gan gynnwys gwaith nad yw'n waith dynol fel eich gwaith eich hun. Fel rhan o astudiaethau coleg o ddydd i ddydd, bydd dysgwyr yn gweithio ar y cyd ag eraill ac yn gallu rhannu adnoddau a syniadau. Bydd cyfle hefyd i weld gwaith athrawon a deunyddiau wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, pan gyflwynir aseiniadau ffurfiol, mae'n hanfodol bod myfyrwyr bob amser yn cydnabod ffynhonnell y syniadau a'r wybodaeth a ddefnyddir yn eu gwaith. Mae Polisïau a Gweithdrefnau Camymddwyn Amheus y JCQ yn diffinio llên-ladrad fel: "copïo heb gydnabyddiaeth o ffynonellau trydydd parti, neu atgynhyrchu ffynonellau o ffynonellau eraill, neu gyfeirio anghyflawn (gan gynnwys y rhyngrwyd ac offer deallusrwydd artiffisial)"

3.3. Gall llên-ladrad fod yn:

- 3.3.1. copïo gwaith dysgwr arall. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw llên-ladrad yn cynnwys cydgynllwynio; hynny yw, gweithio ar y cyd ag ymgeiswyr eraill; ac nid yw chwaith yn cynnwys copïo gan ymgeisydd arall yn yr un sesiwn arholiad. Mae'r ddwy enghraifft hyn yn cael eu gweld fel gwahanol ffurfiau o gamymddwyn.
- 3.3.2. lawrlwytho deunydd o'r rhyngrwyd.
- 3.3.3. dyfynnu gwaith rhywun arall air am air heb gydnabod y ffynhonnell.
- 3.3.4. dynwared neu ail-adrodd gwaith eraill yn agos iawn (gan gynnwys deunyddiau cyhoeddedig) a'i gyflwyno fel eich gwaith chi, heb gyfeirio at y ffynhonnell wreiddiol.
- 3.3.5. defnyddio syniadau rhywun arall fel syniadau eich hun.
- 3.3.6. torri a gludo gwybodaeth o'r rhyngrwyd i'w wneud yn waith eich hun heb restru o ble ddaeth y wybodaeth.
- 3.3.7. prynu neu lawrlwytho aseiniadau ar-lein gan eraill, gan gynnwys cyn-fyfyrwyr.
- 3.3.8. Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) i greu cynnwys heb gyfeirio at y ffynhonnell wreiddiol.
- 3.3.9 Cyflwyno gwaith sydd wedi'i gwblhau gan rywun arall e.e. myfyriwr arall neu aelod o'r teulu.

3.4. Os caiff unrhyw ddeunydd ei gopïo, ei ddefnyddio fel dyfyniad neu ei ail-adrodd, rhaid i'r dysgwr nodi ei ffynhonnell.

3.5 Nid yw llên-ladrad yn ymwneud â gwaith ysgrifenedig yn unig. Mae'n cynnwys pob math o gyflwyno aseiniadau fel cyfansoddi cerddorol, arteffactau a data ar ffurf electronig ar gyfrifiadur.

3.6 Mae llên-ladrad hefyd yn ymgorffori cyfieithu testunau ieithoedd tramor yn uniongyrchol a heb gydnabyddiaeth i'r Saesneg neu'r Gymraeg.

3.7. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau yng Ngholeg Cambria.

3.8. Mae llên-ladrad yn cael ei gydnabod fel achos difrifol iawn yng Ngholeg Cambria ac o bosib yn arwain at gamau disgyblu a thynnu'n ôl o'r cymhwyster. Diffinnir llên-ladrad fel 'camymddwyn gan ymgeisydd' mewn asesiadau gan y JCQ. Cyfeirir at hynny yn eu polisïau a'u gweithdrefnau.

**4. Ymwybyddiaeth**

4.1. Mae'r holl fyfyrwyr angen deall polisi llên-ladrad y Coleg ynghyd ag arweiniad ar AI a'i drafod ar ddechrau'r cwrs cyn eu hasesiad cyntaf.

**5. Gwiriadau**

5.1 Dylai tiwtoriaid geisio cwblhau gwiriadau ar hap mewn perthynas â phob math o lên-ladrad. Cofiwch gyda llên-ladrad sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial bod mewnbynnu testun i offeryn deallusrwydd artiffisial a gofyn i'r offeryn egluro sut y cafodd ei gynhyrchu ddim yn gweithio. Nid oes gan y coleg offeryn canfod AI a argymhellir.

5.2 Bydd y Coleg yn defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad ar gyfer rhai cyrsiau lefel uwch pan fo hynny'n briodol.

5.3 Am ganllawiau cyfredol ar ganfod AI a llên-ladrad, cyfeiriwch at y fersiwn ddiweddaraf o Becyn Cymorth AI Addysgu a Dysgu Coleg Cambria.

**6. Mynd i'r afael â Llên-ladrad**

**6.1. Lle mae gwaith wedi'i lên-ladrata wedi'i gyflwyno'n ffurfiannol ond nad oes datganiad dilysu wedi'i lofnodi'n gorfforol nac yn ddigidol;**

6.1.1. Os bydd unrhyw amheuaeth fod dysgwr yn cyflwyno gwaith wedi'i lên-ladrata ac nad oes datganiad dilysu wedi'i lofnodi, bydd y tiwtor yn cynnal gwiriadau fel y disgrifir isod, ac yn ymchwilio os yw gwaith rhywun arall wedi cael ei basio fel eu gwaith nhw.

**6.1.2**. *Mae'r polisïau a gweithdrefnau JCQ yn nodi:*

6.1.2.1. *"Nid oes angen adrodd i'r corff dyfarnu am gamymddwyn gan ymgeisydd gyda gwaith cwrs neu asesiad dan reolaeth o fanyleb a ddarganfuwyd cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, ond rhaid delio ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Os nad yw ymgeisydd wedi cael ei gofrestru gyda chorff dyfarnu ar gyfer y gydran, yr uned neu'r cymhwyster, rhaid delio hefyd ag ymddygiad gwael a ddarganfuwyd mewn asesiad dan reolaeth neu waith cwrs yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan."*

**6.1.3**. Yn ôl y gweithdrefnau mewnol hyn os canfyddir llên-ladrad dylai'r tiwtor fynd i'r afael â'r mater yn uniongyrchol gyda'r dysgwr a chanfod a oedd y llên-ladrad yn ymgais fwriadol i beidio â chymryd gwaith neu'n achos o anwybodaeth, lle bydd angen ailgyflwyno.

**6.1.4**. Os yw'r tiwtor yn credu bod gwaith wedi'i lên-ladrata'n fwriadol ac mewn modd anonest yna bydd y dysgwr yn cael ei gyfeirio at ei Gyfarwyddwr Cwricwlwm / Rheolwr Dysgu yn y Gwaith i ymchwilio ymhellach. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei wneud o fewn deg diwrnod gwaith gan ymgynghori gyda'r myfyriwr/myfyrwyr a'r tiwtor/tiwtoriaid perthnasol.

**6.1.5**. Yn dibynnu ar faint y drosedd, y dystiolaeth a gyflwynwyd ac os ydi hyn wedi digwydd o'r blaen, bydd Cyfarwyddwr y Cwricwlwm / Rheolwr Dysgu yn y Gwaith yn penderfynu a yw ymddygiad y myfyriwr yn groes i ymddygiad y myfyriwr ac a fyddai'n briodol defnyddio'r polisi ymddygiad cadarnhaol. Yn yr achosion mwyaf difrifol o lên-ladrad gellir gwahardd y myfyriwr o'r cwrs coleg a'i dynnu'n ôl o'r cymwysterau.

**6.1.6. Lle mae gwaith wedi'i lên-ladrata wedi'i gyflwyno fel asesiad rheoledig o waith cwrs a bod yr ymgeisydd wedi llofnodi'r datganiad dilysu:**

6.2.1. O dan yr amgylchiadau uchod bydd unrhyw lên-ladrad yn cyfrif fel 'camymddwyn gan ymgeisydd' yn ôl polisïau a gweithdrefnau'r JCQ. Mae canllawiau'r JCQ o dan yr amgylchiadau hyn yn nodi:

6.2.1.1. *"Fel arfer, ni ddylai canolfannau roi credyd am unrhyw waith a gyflwynir nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun. Os rhoddwyd unrhyw gymorth, rhaid gwneud nodyn o hyn ar ddalen flaen gwaith yr ymgeisydd neu mewn man priodol arall. Lle darganfyddir camymddwyn gan ddysgwr mewn cymhwyster galwedigaethol cyn cyflwyno'r gwaith i'w ardystio, dylai canolfannau gyfeirio at y canllawiau a ddarperir gan y corff dyfarnu.*

## 7. Apeliadau

**7.1. Apeliadau yn erbyn mesurau disgyblu mewnol sy'n ymwneud â llên-ladrad:** Gweler y polisi apeliadau mewnol am weithdrefnau apeliadau mewnol.

**7.2. Apeliadau yn erbyn asesiadau a gyflwynwyd i'w hasesu'n fewnol ac a wrthodwyd ar sail camymddwyn ymgeiswyr sy'n gysylltiedig â llên-ladrad:**

7.2.1. Mae polisïau a gweithdrefnau'r Cyd-Gyngor Cymwysterau yn nodi lle mae gwaith wedi'i wrthod o dan yr amgylchiadau uchod,

7.2.1.1. *"mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Mae gwefan y Cyd-Gyngor Cymwysterau yn cynnwys cyngor ar y gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau asesu mewnol.*

## 8. Cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| Polisïau a Gweithdrefnau Camymddwyn Amheus y JCQ | ymddwyn JCQ |
| Llên-ladrad mewn Nodiadau Asesu | Llên-ladrad |